

# Twbercwlosis Buchol

## Papur Briffio

Ionawr 2025



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:  
**[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1SN**

X: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**  
Ymchwil y Senedd: **[ymchwil.senedd.cymru](http://ymchwil.senedd.cymru)**  
Tanysgrifiwch: **[Cylchlythyr](mailto:Cylchlythyr)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**

Ceir atgynhychu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhychu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Twbercwlosis Buchol

## Papur Briffio

Ionawr 2025

### Awdur:

Jake Lloyd Newman

Mae Ymchwil y Senedd yn cydnabod y gymrodoriaeth seneddol a roddwyd i Jake Lloyd Newman gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol a alluogodd i'r papur briffio hwn gael ei gwblhau.

**Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg cyffredinol o Dwbercwlosis Buchol yng Nghymru. Mae'n nodi manylion am bolisiau allweddol Llywodraeth Cymru ac yn trafod newidiadau arfaethedig.**



## Cynnwys

<b>1. Beth yw TB buchol?.....</b>	<b>1</b>
<b>2. Pa mor gyffredin yw TB buchol yng Nghymru? .....</b>	<b>1</b>
<b>3. Beth yw dull Llywodraeth Cymru o reoli TB buchol? .....</b>	<b>5</b>
Llywodraethu'r Rhaglen i Ddileu TB Buchol .....	5
Gwylidwriaeth a phrofion TB.....	6
Profion cyn symud a phrofion ar ôl symud.....	7
Prynu gwybodus.....	8
Iawndal TB Buchol.....	9
Newidiadau lladd ar y fferm.....	11
Brechiad buchod.....	12
Brechu a rheoli moch daear .....	13
Prosiect Sir Benfro .....	13

---

## 1. Beth yw TB buchol?

Mae Twbercwlosis Buchol (TB) yn glefyd heintus a achosir gan y bacteria *Mycobacterium bovis* (*M. bovis*). Mae'n ymosod ar ysgyfaint a nodau lymff anifail. Mae'r clefyd yn effeithio ar fuchod yn bennaf, ond gall hefyd heintio anifeiliaid eraill, gan gynnwys moch daear, ceirw, geifr, moch a chamelidau (lamaod ac alpacas). Gellir trosglwyddo'r clefyd cyn i unrhyw symptomau gael eu canfod a gall ledaenu'n gyflym drwy fuchesi. Felly, mae canfod a rheoli buchod heintiedig yn gynnar yn hanfodol er mwyn rheoli lledaeniad y clefyd.

Mae TB buchol yn glefyd milheintiol, sy'n golygu y gellir ei drosglwyddo o anifeiliaid i bobl. Fodd bynnag, mae pasteureiddio llaeth a safonau archwilio cig uchel yn golygu bod achosion dynol o TB a achosir gan *M. bovis* yn brin yng Nghymru.

## 2. Pa mor gyffredin yw TB buchol yng Nghymru?

Caiff cynnydd o ran rheoli TB buchol yng Nghymru ei fonitro drwy ddata epidemiolegol a gesglir gan yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA). Crynhoir hyn mewn diweddariadau chwarterol ar **ddangosfwrdd TB buchol Llywodraeth Cymru**, ac **adroddiadau gwylidwriaeth blynyddol**. Mae'r dangosfwrdd TB buchol yn cael ei ddiweddarau bob chwarter ac mae'n cynnwys ystadegau TB buchol perthnasol, gan gynnwys:

- Nifer yr achosion o TB buchol;
- Buchod a laddwyd;
- Buchesi heb TB buchol; a
- Ailheintiad o TB buchol.


Mae'r **wybodaeth ddiweddaraf** o fis Rhagfyr 2024 yn cynnwys data hyd at 30 Medi 2024. Mae'n bwysig edrych ar y data yng nghyd-destun tueddiadau hirdymor, o ystyried amrywiadau byrdymor.

Gellir cymharu'r **data diweddaraf** (y 12 mis hyd at fis Medi 2024) â data o bum mlynedd yn ôl (12 mis i fis Medi 2019) i archwilio tueddiadau:

- Yn y 12 mis hyd at fis Medi 2024, roedd 586 o achosion newydd. Ar gyfer yr un cyfnod hyd at fis Medi 2019 roedd 683 o achosion newydd. Mae hyn yn cynrychioli **gostyngiad o 14.2%**. (Ffigur 1);

- Yn y 12 mis hyd at fis Medi 2024, cafodd 12,278 o fuchod eu lladd er mwyn rheoli TB buchol. Am yr un cyfnod hyd at fis Medi 2019, cafodd 13,078 eu lladd. Mae hyn yn cynrychioli **gostyngiad o 6.1%**. (Ffigur 2);
- Roedd 94.6% o fuchesi heb TB yng Nghymru ar ddiwedd mis Medi 2024, ac roedd 94.6% o fuchesi heb TB ar ddiwedd mis Medi 2019; ac
- Ar ddiwedd mis Medi 2024, roedd 865 o fuchesi o dan gyfyngiad TB buchol, o gymharu â 912 o fuchesi dan gyfyngiadau ar ddiwedd mis Medi 2019. Mae hyn yn cynrychioli **gostyngiad o 5.2%**.


**Ffigur 1: Nifer y buchesi ag achosion newydd yng Nghymru.**



Ffynhonnell: **Data gwylidwriaeth TB buchol APHA**




**Ffigur 2: Cyfanswm y buchod a laddwyd ar gyfer rheoli TB buchol yng Nghymru.**



Ffynhonnell: **Data gwyliadwriaeth TB buchol APHA**

Mae Llywodraeth Cymru yn asesu lefel risg TB buchol mewn dull rhanbarthol gan ddefnyddio Ardaloedd TB buchol (mae manylion am y polisi isod) (Ffigur 3).

**Ffigur 3: Map rhanbartholi TB buchol ym mis Tachwedd 2024 yn dangos yr Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel, gan nodi lefel yr achosion.**



Ffynhonnell: [Data gwylidwriaeth TB buchol APHA](#)



### 3. Beth yw dull Llywodraeth Cymru o reoli TB buchol?

Nod Llywodraeth Cymru yw cael **TB buchol wedi'i ddileu'n llwyr erbyn 2041**.

Mae **Rhaglen Dileu TB Cymru 2017** yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer dileu TB buchol yng Nghymru ac wedi cyflwyno'r dull rhanbarthol o reoli'r clefyd. Mae'r dull rhanbarthol o weithredu wedi creu Ardaloedd TB Isel, Canolradd ac Uchel yn seiliedig ar nifer yr achosion o TB buchol (Ffigur 3). Mae Cymru wedi'i rhannu'n unedau gofodol at ddibenion epidemiolegol, ac mae'r Ardaloedd TB yn cynnwys clystyrau o unedau gofodol sydd â nifer debyg o achosion o TB buchol. Yn y gwahanol Ardaloedd TB, gellir monitro cynnydd y clefyd, a gellir mabwysiadu dull mwy lleol, pan fo angen.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar **Raglen ddiwygiedig ar gyfer dileu TB**, a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2022. Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar ystod eang o gamau gweithredu arfaethedig, gan gynnwys newidiadau i brotocolau profi TB buchol, trefniadau iawndal TB buchol a phrynu gwybodus (ceir manylion isod). Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ym **mis Mai 2022**.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, cyhoeddwyd **Cynllun Cyflawni Rhaglen Dileu TB Cymru** (y 'Cynllun Cyflawni' o hyn ymlaen) ym mis Mawrth 2023 ac mae'n ymestyn hyd at fis Mawrth 2028. Mae'r Cynllun Cyflawni yn rhan o Raglen Dileu TB Buchol 2017. Mae'n amlinellu cynllun sydd â'r nod o sicrhau Cymru heb TB buchol erbyn 2041, ac mae'n cynnwys nifer o newidiadau sylweddol i reolaeth TB buchol, a amlinellir ymhellach isod.

#### Llywodraethu'r Rhaglen i Ddileu TB Buchol

Mae **Bwrdd y Rhaglen Dileu TB Buchol** yn goruchwyllo'r Rhaglen Dileu TB Buchol drwy ddarparu cyngor polisi ac arweiniad i Lywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd yn cynnwys ffermwyr a chynrychiolwyr undebau ffermio yn bennaf. Mae'n cwrdd bob chwarter gyda'r nod o sicrhau dull gweithredu sy'n ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ochr yn ochr â thystiolaeth wyddonol.

Mae'r **Grŵp Cyngori Technegol TB Buchol** yn darparu cyngor annibynnol, arbenigol i Fwrdd y Rhaglen Dileu TB Buchol a Llywodraeth Cymru ar agweddau gwyddonol a thechnegol y Rhaglen Dileu TB Buchol. Ym mis Ebrill 2024, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru aelodaeth y Grŵp Cyngori**. Cyfarfu'r Grŵp

Cynghori am y tro cyntaf ar **17 Ebrill 2024**. Ei flaenoriaeth gyntaf oedd adolygu polisi Llywodraeth Cymru o ran lladd ar y fferm (a drafodir isod).

Mae'r Cynllun Cyflawni yn amlinellu meysydd blaenoriaeth ar gyfer y dyfodol i'w hystyried gan y Grŵp Cynghori:

- cyfundrefn profi gwyliadwriaeth TB buchol;
- defnyddio brechiadau buchod; ac
- asesu effaith slyri ar drosglwyddo TB buchol.

## **Gwyliadwriaeth a phrofion TB**

Mae gan Lywodraeth Cymru raglenni profi ar gyfer:

- gwyliadwriaeth (sgrinio buchod am bresenoldeb haint);
- rheoli achosion o TB (lle gwyddys bod haint ar fuches); a
- lle mae amheuaeth o haint (profion wedi'u hysgogi gan symptomau yn y fuches).

Mae'r rhaglenni profi hyn yn pennu statws TB buchol ac yn hwyluso masnach mewn buchod a chynhyrchion domestig a rhyngwladol.

O dan ***Orchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010***, mae'n ofynnol i unrhyw un sy'n cadw buchod yng Nghymru gael prawf TB buchol. Ers 2010, mae pob buches yng Nghymru wedi cael ei **phrofi, o leiaf, yn flynyddol ar gyfer TB buchol**. Mae Llywodraeth Cymru yn talu am brofion TB buchol arferol. Mae buchesi yn yr Ardal Triniaeth Ddwys yng ngorllewin Cymru yn cael eu profi bob chwe mis.

Sefydlwyd yr Ardal Triniaeth Ddwys yn 2010 i fynd i'r afael â lefelau uchel o TB buchol. Mae mesurau uwch yn cael eu cymhwyso i fynd i'r afael â phob ffynhonnell o TB buchol. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- profion bob chwe mis;
- rheolaethau llymach ar fuchod;
- mesurau bioddiogelwch gwell;
- rhaglenni brechu moch daear; a
- phrofi pob gafr a chamelid.

Mae profion TB buchol yng Nghymru yn defnyddio'r prawf croen twbercwlin yn bennaf, sydd â'r penodolrwydd uchaf yn y profion cyfredol ond sydd â sensitifrwydd is. Mae penodolrwydd yn cyfeirio at allu prawf i nodi anifeiliaid heb eu heintio yn gywir fel rhai negatif, tra bod sensitifrwydd yn cyfeirio at allu'r prawf i nodi'n gywir

anifeiliaid heintiedig fel rhai positif. Mae hyn yn rhoi lefel uchel o hyder bod y rhan fwyaf o adweithyddion prawf croen yn anifeiliaid sydd wedi'u heintio â TB mewn gwirionedd, gan leihau'r siawns o ganlyniadau 'positif ffug'.

Cefnogir y prawf hwn gan ddefnyddio profion gwaed Interferon-gamma ac IDEXX, sydd â sensitifrwydd uwch ond sydd â phenodolrwydd is. Ar hyn o bryd nid oes prawf TB buchol a all nodi bod yr holl anifeiliaid heintiedig yn bositif (sensitifrwydd 100%) a phob anifail heb ei heintio yn negatiff (penodolrwydd 100%). Am y rheswm hwn, mae profion TB buchol yng Nghymru yn gynyddol yn defnyddio cyfuniad o brofion i sicrhau'r canlyniad gorau ar gyfer unrhyw sefyllfa benodol.

Mae gwyliadwriaeth effeithiol yn chwarae rhan bwysig wrth ganfod haint TB buchol yn gynnar. Mae angen ei adnabod yn gynnar fel y gellir cymryd camau i ddileu clefydau yn y fuches heintiedig, lleihau lledaeniad y clefyd a hwyluso masnach gyda gwledydd eraill. Unwaith y bydd haint wedi'i ganfod mewn buches, cynyddir y profion, er mwyn canfod anifeiliaid heintiedig eraill a dychwelyd y fuches i statws heb TB buchol cyn gynted â phosibl.

Mae buchod sydd wedi'u heintio yn cael eu lladd a chaiff perchnogion iawndal gan Lywodraeth Cymru am bob anifail a gaiff ei ladd. Telir ceidwaid buchod sy'n cael eu lladd o dan y Rhaglen Dileu TB Buchol ar werth y farchnad a ganfyddir gan brisiadau unigol o'u hanifeiliaid (a drafodir ymhellach isod).

## Profion cyn symud a phroffion ar ôl symud

---

Mae Llywodraeth Cymru yn **amlygu rheswm allweddol dros ledaeniad TB buchol** yw symudiadau buchod. Nod profion cyn symud a phroffion ar ôl symud yw lleihau risg.

Mae profion cyn symud yn helpu i sicrhau nad yw buchod sy'n symud rhwng buchesi neu ranbarthau yn cario TB buchol:

- **Gofyniad:** Rhaid i bob buwch sy'n symud yng Nghymru gael prawf cyn symud clir o fewn 60 diwrnod i'w symud. Mae'r anifail yn cael prawf croen a weinyddir gan filfeddyg, ac mae'r canlyniadau'n ddilys am 60 diwrnod (30 diwrnod ar gyfer symud i'r Alban); ac
- **Eithriadau:** Mae lloi o dan 42 diwrnod oed, symudiadau i driniaeth filfeddygol, yn syth i'w lladd, a rhai sioeau amaethyddol wedi'u heithrio.

Prawf preifat yw prawf cyn symud a drefnir ac y telir amdano gan y ffermwr gyda'i filfeddyg. Gall prawf arferol y telir amdano gan Lywodraeth Cymru hefyd gael ei

ystyried yn brawf cyn symud pan fydd yn bodloni'r gofynion profi.

Mae profion ar ôl symud yn helpu i sicrhau bod unrhyw haint TB buchol a fethwyd yn ystod y cyfnod cyn symud yn cael ei ganfod, a bod modd ei reoli'n briodol:

- **Gofyniad:** Mae angen prawf ar ôl symud ar bob buwch, o fewn 60-120 diwrnod i gyrraedd daliad pan gânt eu symud i:
  - Ardal TB Isel Cymru o:
    - Ardal TB Canolradd neu Ardal TB Uchel yng Nghymru
    - Ardal Ymyl neu Ardal Risg Uchel Lloegr
    - Gogledd Iwerddon
  - Ardal TB Canolradd yng Nghymru o:
    - Ardal TB Uchel yng Nghymru
    - Ardal Risg Uchel Lloegr
    - Gogledd Iwerddon

Lle mae llo (o dan 42 diwrnod oed) yn cael ei brynu o ardal risg uwch a'i symud i'r Ardaloedd TB Isel neu Ganolradd, rhaid i'r prynwr gynnal prawf ar ôl symud ar y llo o fewn 60-120 diwrnod i gyrraedd.

- **Eithriadau:** Mae symudiadau i ladd, triniaeth filfeddygol, a rhai unedau pesgi wedi'u heithrio. Nid yw symudiadau o ardal TB Isel Lloegr ychwaith yn gofyn am brawf ar ôl symud.

Prawf preifat yw prawf ar ôl symud a drefnir ac y telir amdano gan y ffermwr gyda'i filfeddyg. Mae prawf arferol y telir amdano gan Lywodraeth Cymru hefyd yn cael ei ystyried yn brawf ar ôl symud pan fydd yn bodloni'r gofynion profi.

**Er mwyn mynd i'r afael â chynnydd yn lefelau TB buchol mewn Ardaloedd TB Isel**, ar 1 Chwefror 2024, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau **profi cyn symud ac ar ôl symud** gorfodol. Cyn hyn, nid oedd angen cynnal profion cyn symud mewn Ardaloedd TB Isel.

## **Prynu gwybodus**

Mae'r **Cynllun Cyflawni yn amlygu newidiadau posibl** ynghylch 'prynu gwybodus'. Mae hyn yn ymwneud â darparu ac arddangos gwybodaeth TB buchol ar y pwynt gwerthu.

Ar hyn o bryd mae system wirfoddol o ran **arddangos gwybodaeth am TB buchol**

**ar y pwynt gwerthu**, gyda ffermwyr yn cael eu hannog gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod hanes profion eu buchesi ar gael er mwyn asesu'r lefel o risg o TB. **Nid yw hyn yn orfodol ar hyn o bryd.**

Ym mis **Tachwedd 2019 dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd, Lesley Griffiths AS** fod swyddogion wedi dechrau gweithio gyda DEFRA i fandadu arddangos gwybodaeth TB buchol ar y pwynt gwerthu. Mae'r Cynllun Cyflawni **yn cynnwys** nod hirdymor o ran cyflwyno trefn brynu wybodus orfodol drwy ddeddfwriaeth newydd. Mae'n cydnabod y cymhlethdodau sydd ynghlwm â hyn, a'r angen i sicrhau cysondeb ledled Cymru a Lloegr. Ysgrifennodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, Lesley Griffiths AS, **at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd ym mis Gorffennaf 2023**, gan amlygu bod ymgysylltiad pellach â'r diwydiant a Llywodraeth y DU wedi'i gynllunio drwy'r Grŵp Cynghori.

Cafwyd cymysgedd o ymatebion i'r cynigion. **Mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Cymru yn pryderu** y gallai system o brynu gwybodus sefydlu 'marchnad ddwy haen' a fyddai'n cael effaith negyddol ar fusnesau nad oes ganddynt fawr o reolaeth dros eu statws o ran clefyd oherwydd ffactorau allanol (gan gynnwys bywyd gwyllt heintiedig). Rhybuddiodd Undeb Amaethwyr Cymru (FUW) y **byddai ffermwyr yn gwerthu eu hanifeiliaid y tu allan i Gymru** os na chaiff y system ei chyflwyno ledled y DU.

Mae RSPCA Cymru yn cefnogi'r cynnig i fandadu gwybodaeth am TB ar y pwynt gwerthu. Mae'n awgrymu cynnwys gwybodaeth ynghylch a yw anifeiliaid yn y fuches wedi'u caffael o ardaloedd risg uchel a phryd y cyflwynwyd anifeiliaid o'r fath i'r fuches.

## Iawndal TB Buchol

Mae **Gorchymyn Twbercwlosis (Cymru) 2010** ('Gorchymyn 2010') yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu iawndal i berchnogion buchod am anifeiliaid a leddir oherwydd TB buchol. O dan y system bresennol, mae prisiwr yn asesu gwerth marchnad pob anifail yn unigol. Uchafswm prisiad anifail yw £5,000. Mae gostyngiadau i'r iawndal a delir os bydd ceidwaid yn torri Gorchymyn 2010 - er enghraifft, gellir gostwng iawndal ar gyfer anifeiliaid sydd wedi'u symud yn anghyfreithlon gan 95%.

Mae Llywodraeth Cymru wedi **gorwario ar y gyllideb iawndal TB buchol ers 2016** ac **wedi disgrifio'r** system bresennol fel un "anghynaliadwy". Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'r diwydiant ar opsiynau taliadau

TB buchol yn y byrdymor, gyda'r nod tymor hwy o newid y drefn taliadau TB buchol. **Ei nod yw** cael dull "teg a chymesur" sy'n "adlewyrchu'r adnoddau ariannol sydd ar gael".

**Mae systemau iawndal amgen wedi'u cynnig** gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar system brisio ar ffurf tabl lle defnyddir pris marchnad cyfartalog i gyfrifo iawndal. Dywedodd Llywodraeth Cymru y gallai arbed £5.1 miliwn yn flynyddol drwy newid i gynllun talu ar ffurf tabl. Byddai prisiau ar ffurf tabl yn cael eu diweddarau yn unol â data gwerthiant i adlewyrchu gwerthoedd buchod pedigri a masnachol.

Opsiwn arall yw'r system prasio ar ffurf tabl, gyda chynnydd yn y taliad yn seiliedig ar aelodaeth o gynllun cymeradwy ar gyfer achredu iechyd anifeiliaid.

Mae'r cynigion ar ffurf tabl yn debyg i system dalu Lloegr, **lle mae tabl misol o werthoedd taliadau** yn cael ei gyhoeddi ar gyfer 51 o wahanol gategorïau o fuchod. Caiff ceidwaid yn yr Alban **eu talu gwerth y farchnad yr anifail**, gydag uchafswm o £7,500. Yn yr un modd, yng Ngogledd Iwerddon, caiff y ceidwaid **eu talu gwerth y farchnad yr anifail ar ôl prasio**. Mae cynigion i leihau'r system dalu yng Ngogledd Iwerddon i **90% o werth y farchnad, a fydd yn gostwng ymhellach i 75%** dros gyfnod o amser.

Yr opsiwn olaf a gynigir yn yr ymgynghoriad yw taliadau TB buchol a bennir "**gan grŵp annibynnol o dan arweiniad y diwydiant gan ystyried meini prawf cymhwysedd** megis cydymffurfio â'r Gorchymyn TB a masnachu ar sail risg". Byddai ardoll diwydiant yn ariannu costau taliadau TB yn rhannol. **Dywed yr ymgynghoriad yn 2021:**

Byddai'r grŵp hwn yn cael ei ariannu'n rhannol gan y Llywodraeth ac yn rhannol gan ardoll eidion a godro newydd. Yng Nghymru, telir ardoll ar y cyd (y pen) gan y cynhyrchydd a'r lladdwr/allforiwr i Hybu Cig Cymru ar gyfer gwartheg sy'n cael eu lladd yng Nghymru neu'n cael eu hallforio. Mae ffermwyr godro yn talu ardoll i AHDB. Gallai'r ardoll newydd hon gael ei chasglu gan AHDB a Hybu Cig Cymru, ond byddai angen archwilio manylion yr agweddau ymarferol cysylltiedig a'r costau posibl.

Dywed Llywodraeth Cymru y byddai'r dull hwn yn debyg i ddull **Seland Newydd** o weithredu.

Dywedodd RSPCA Cymru fod y **cynigion ar ffurf tabl ar gyfer iawndal yn rhesymol**, ond mai'r opsiwn sy'n ymwneud ag ardollau diwydiant yw'r un sy'n apelio fwyaf. Mae **NFU Cymru a FUW** yn 'gwrthod' y cynnig i symud i system brisio ar ffurf tabl. **Mae FUW yn dadlau** ei bod yn anghyfiawn os yw'r taliadau'n is na gwerth yr anifeiliaid, tra bod rhai yn derbyn gordaliadau. **Dywed NFU Cymru** mai'r

unig ffordd deg i brisio buchod yw ar sail eu rhinweddau unigol.

Ym mis Ionawr 2024, **dywedodd Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar y pryd, Lesley Griffiths AS, wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd:**

It is estimated a full review will take up to 24 months to complete before any financial savings may be realised. This review will commence once resources allow.

**Dywedodd y Gweinidog wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig** ei bod yn 'gobeithio' y byddai'r adolygiad o daliadau iawndal yn dechrau yn 2024.

## Newidiadau lladd ar y fferm

Gwnaeth NFU Cymru **argymhellion** i'r Grŵp Cyngori ynghylch lladd ar y fferm yn dilyn **arolwg NFU Cymru** ar effaith TB buchol ar ffermwyr. Dywedodd fod 85% o ymatebwyr (ymatebodd 507 o ffermwyr) wedi adrodd bod TB buchol wedi cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl eu hunain neu iechyd meddwl aelod o'r teulu. **Dywed NFU Cymru mai lladd buchod â llo ar y fferm yw'r hyn** sy'n achosi'r gofid mwyaf i ffermwyr. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, Huw Irranca-Davies AS ('yr Ysgrifennydd Cabinet'), **fod Llywodraeth Cymru yn deall** "yr effaith y mae TB mewn Gwartheg yn ei gael ar iechyd meddwl ffermwyr Cymru ac wedi gwrandao ar farn y gymuned ffermio".

Ar ôl y cyfarfod ar 17 Ebrill 2024, **gwnaeth y Grŵp Cyngori argymhellion** i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ladd anifeiliaid sydd wedi'u heintio â TB ar y fferm. Ar 16 Mai 2024, **cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Cabinet** ei fod wedi derbyn argymhellion y Grŵp Cyngori, gan ddweud y bydd newidiadau'n cael eu gwneud ar unwaith i'r polisi lladd ar y fferm. Cyn y newidiadau, roedd buchod a oedd wedi'u heintio â TB yn cael eu lladd ar y fferm gan nad oeddent yn gallu teithio oherwydd rhesymau llesiant.

Ar gais Llywodraeth Cymru, **rhoddodd APHA Cymru broses interim ar waith** o 29 Mai 2024 i gynnig oedi i symud buchod â llo. O 4 Tachwedd 2024 ymlaen, yn amodol ar asesiad risg gan filfeddyg ac yn unol ag amodau bioddiogelwch diffiniedig, **gall ffermwyr ddewis gohirio symud anifeiliaid heintiedig sydd:**

- â llo ac yn disgwyl o fewn 60 diwrnod;
- newydd gael llo yn ddiweddar;
- o fewn cyfnod atal meddyginiaeth;



- ag anghysondeb adnabod neu basbort y gellir ei ddatrys yn hawdd.

Ym mis Mai 2024, **gofynnodd yr Ysgrifennydd Cabinet i swyddogion weithio** gydag NFU Cymru, FUW a chynrychiolwyr eraill o'r sector buchod i sefydlu gweithgor i edrych ar leihau achosion o ladd ar y fferm a'i effeithiau drwy "gyd-ddylunio a chyd-gyflawni".

## **Brechiad buchod**

Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) **yn cynnal gwaith ymchwil a datblygu TB buchol, gan gynnwys ar frechu buchod, ar ran y tair gweinyddiaeth** ym Mhrydain Fawr (Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban).

Mae tair gweinyddiaeth Prydain Fawr yn ariannu prosiect gyda'r nod o sicrhau awdurdodiadau marchnad y DU ar gyfer **brechiad buchod (CattleBCG), a phrawf croen newydd** (DST-F neu DIVA) i ganfod anifeiliaid heintiedig ymhlith anifeiliaid sydd wedi'u brechu.

Mae'r ffaith y **gall anifeiliaid sydd wedi'u brechu brofi'n positif am haint gan ddefnyddio'r profion croen twbercwlin presennol** wedi bod yn rhwystr i frechu buchod. Mae'r prawf DIVA wedi'i ddatblygu i ysgogi **ymateb imiwn mewn anifeiliaid sydd â'r haint M.bovis** (ac felly canlyniad prawf croen positif), ond nid mewn anifeiliaid sydd wedi cael eu brechu.

Mae Llywodraeth y DU yn rhagweld y bydd hyn yn helpu **arbed miloedd o fuchod bob blwyddyn** a fyddai fel arall wedi cael eu lladd er mwyn atal y clefyd rhag lledaenu.

**Mae APHA yn arwain treialon y brechlyn** mewn tri cham:

- Cam 1: Asesu penodolrwydd a diogelwch prawf croen DIVA (DST-F) mewn anifeiliaid heb eu brechu o fuchesi buchod heb TB yn Ardal Risg Isel Lloegr. Cwblhawyd ym mis Mai 2022.
- Cam 2: Asesu diogelwch y brechlyn CattleBCG a DST-F, a phenodolrwydd DST-F mewn anifeiliaid sydd wedi'u brechu (a rheolaethau heb eu brechu) o fuchesi buchod heb TB mewn ardaloedd risg isel o TB buchol yng Nghymru a Lloegr. Cwblhawyd ym mis Mawrth 2024.
- Cam 3: Asesu penodolrwydd y brechiad BCG a DST-F mewn carfan ehangach o fuchesi **Ardaloedd Risg Isel Lloegr** ac Ardaloedd TB Isel Cymru. Disgwylir ei gwblhau yn 2026.

Mae'r Cynllun Cyflawni yn cynnwys nod i gyflawni strategaeth effeithiol ar gyfer brechu TB buchol wrth drwyddedu'r brechlyn CattleBCG a'r prawf DIVA.

## Brechu a rheoli moch daear

Mae'r **Arolwg Cymru Gyfan ar gyfer Canfod Moch Daear Marw**, a ddechreuodd yn 2014, yn rhoi gwybodaeth am lefelau TB mewn moch daear. Rhwng 2014 a 2021, o'r 2,881 o garcasau moch daear a brofwyd, roedd 206 (7.2%) yn positif am TB buchol.

Mae **Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn datgan** y bydd yn "gwahardd difa moch daear i reoli lledaeniad TB mewn gwartheg". Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i **raglen brechu moch daear** a ddechreuodd yn 2012.

Cyflwynwyd **Grant Brechu Moch Daear** yn 2019, ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi 42 o ffermydd i frechu moch daear ar eu tir.

Mewn ymateb i **gynnydd yn nifer yr achosion o TB buchol yn Ynys Môn**, cynhaliwyd arolwg moch daear a bioddiogelwch ar Ynys Gybi ym mis Mawrth 2023 i asesu gweithgarwch moch daear. **Cwblhawyd blwyddyn gyntaf rhaglen frechu wedi'i thargedu pedair blynedd ar Ynys Gybi** ym mis Hydref 2023. Fel rhan o'r Arolwg Canfod Moch Daear Marw, **nid oes unrhyw foch daear positif wedi'u canfod ar Ynys Môn** hyd yma (ym mis Rhagfyr 2024).

Yn wahanol i Gymru, lle mae brechu moch daear yn cael ei ddefnyddio i gyfyngu ar drosglwyddo TB buchol, yn Lloegr, mae **moch daear wedi cael eu difa**. Ym mis Awst 2024, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ceisio dull gwyddonol sy'n cael ei arwain gan ddata i roi diwedd ar **ddifa moch daear erbyn diwedd tymor y Senedd hon**. Bydd **astudiaeth brechu moch daear yn cael ei chynnal yn Lloegr** i sefydlu effaith brechu moch daear ar yr achosion o TB buchol. Mae Llywodraeth y DU yn gobeithio y bydd yr astudiaeth hon **yn annog ffermwyr i gymryd rhan yn y broses o frechu moch daear**.

## Prosiect Sir Benfro

Dechreuodd **Prosiect Sir Benfro** ym mis Awst 2023 gyda'r nod o fynd i'r afael â "lefelau dwfn" o'r haint mewn rhannau o Sir Benfro, lle **mae mynychder a chyffredinolrwydd TB buchol wedi bod yn cynyddu**. Drwy'r prosiect, nod Llywodraeth Cymru yw hwyluso cydweithredu rhwng milfeddygon a ffermwyr a "grymuso penderfyniadau gwybodus lleol ac arweinyddiaeth wrth reoli clefydau".

Mae'r prosiect yn datblygu ac yn gweithredu dulliau newydd o reoli TB buchol,

yn ychwanegol at y mesurau statudol a ddefnyddir yn yr ardal ar hyn o bryd. Mae'n canolbwyntio ar nodi'r risg o glefydau gweddilliol mewn profion clir ar fuchod, a datblygu llwybrau ar gyfer lliniaru trosglwyddiadau rhwng buchod. Mae Llywodraeth Cymru yn **bwriadu defnyddio strategaethau effeithiol**, a nodwyd drwy'r prosiect, ledled Cymru i leihau lefelau TB buchol.